

# Yr aelod afreolus

*“Ond nid oes neb sy’n gallu rheoli’r tafod. Drwg diorffwys yw, yn llawn o wenwyn marwol.” (adn. 8)*

## Beth am ddarllen Iago 3:1–13 ac yna myfyrio

Mae’r adran sydd o’n blaen heddiw yn dangos pa mor bwysig yw hunanreolaeth mewn perthynas â’r tafod. Yn ôl yr Ysgrythur, y tafod yw’r aelod mwyaf afreolus sydd yn perthyn i’r corff. Yn ôl un, mae yna dri cham i bob cyfathrebu geiriol: siarad ar ein cyfer, siarad yn ystyriol, ac yna, siarad yn ddeallus. Yn anffodus, mae pobl yn cyfyngu eu hunain i siarad ar eu cyfer yn gwbl anneallus ac anystyriol. Mae’r person sydd yn gwneud ymdrech i ychwanegu ‘hunannddisgyblaeth’ i’w ffydd yn oedi rhwng siarad ar ei gyfer a siarad gan roi amser iddo neu iddi ei hun i ystyried. Mi fydd yr amser fyddwch yn ei dreulio yn yr oedi yma yn adlewyrchiad o’r mesur o hunannddisgyblaeth sydd yn perthyn i’ch ffydd chi. Os ydych chi’n oedi’n ormodol, gallwch roi’r argraff eich bod yn amhendant, ond mae angen oedi yn ddigon hir i wneud yn siŵr fod yr hyn yr ydym yn ei ddweud yn cyfateb i’r hyn yr ydym am ei ddweud.

Ychydig yn ôl, roeddwn yn siarad â gweinidog ac, wedi ychydig funudau, fe neidiodd y gweinidog o siarad ar ei gyfer i siarad yn helaeth heb ystyried o gwbl. Dechreuodd drafod rhai aelodau o’i gynulleidfa mewn ffordd oedd yn amhriodol i weinidog, ac yn y munudau hynny, cefais olwg ar ei anaeddfedrwydd emosiynol. Yn wir, roedd ei sgwrs mor amhriodol fel fy mod yn medru gweld yn fuan iawn pam ei fod yn cael anawsterau gyda’i arweinwyr eglwysig.

Meddai un wraig oedd yn aeddfedu yn gyflym iawn yn ei bywyd Cristnogol: “Y frwydr anoddaf a gefais erioed fel Cristion yw dros y gair ‘ystyried’. Rwyf wedi siarad mor hir ar fy nghyfer fel fy mod yn cael anhawster mawr i dreulio amser yn ystyried fy ngeiriau.” Mae mesur ein hystyriaeth yn adlewyrchu mesur ein haeddfedrwydd. Ychydig o ystyriaeth? Ychydig o aeddfedrwydd!

## Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Diar. 13:3; 15:2; 18:13; 21:23; Preg. 5:2–3; Iago 1:19–21

## Meddyliwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth yw dysgeidiaeth y Diarhebion gyda golwg ar ystyriaeth?
2. Pam fod tafod rhydd yn adlewyrchiad o galon ysgafn?

## Gweddi

O Dad, rwy’n gweld y gall fy nhafod fagu gwenwyn neu fagu nerth. Yn aml, y fi sydd yn penderfynu pa un. Cynorthwya fi i fod mewn rheolaeth o’r aelod afreolus yma. Yn enw Iesu. Amen.